
Crewyr Cadw: Comics

# Arglwyddi'r Mers a Llywelyn Fawr




Cyfarwyddwr Celf: Lexy Jones & Nick Price
Inclwr: Lexy Jones
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Arglwyddi'r Mers a Llywelyn Fawr

Crewyr Cadw: Comics





Ha ha! Fy machgen!
Mae'n stori gymhleth iawn. Gad i mi ddechrau o'r dechrau...
Yn 1066, daeth llu o Normaniaid i Brydain o Ffrainc.
Gwnaethon nhw goncro'r rhan fwyaf o Loegr, a'u harweinydd, Wiliam, ddaeth yn frenin newydd. Cipiodd y Normaniaid dir yn neheubarth Cymru, a rhoddodd Wiliam y tir i filwyr Normanaidd a oedd wedi cefnogi ei goncwest.
Daeth y milwyr hyn yn bwerus, gan gymryd mwy o dir oddi wrth y Cymry. Daethant i gael eu galw'n Arglwyddi'r Mers a gwnaethant deyrnasu dros y tir dros genedlaethau. Roedd Llywelyn Fawr am gymryd y tir yn ôl.
Mae hynny'n wych! Beth wnaeth Llywelyn ynghylch Arglwyddi'r Mers?
Daeth Llywelyn Fawr yn arweinydd medrus a llwyddiannus. Fe unodd ardaloedd Powys a Phenllyn â Gwynedd yng ngogledd Cymru.


Roedd gan Llywelyn berthynas da â'r Brenin John yn Lloegr ac fe briododd Siwan, merch y Brenin John, yn 1205.
Roedd pobl yn adnabod Siwan fel Siwan, Arglwyddes Cymru ac Arglwyddes Eryri, a chafodd ei galw'n Joan hefyd.
Dros y blynyddoedd a ddilynodd, gwaethygodd perthynas Llywelyn â'r Brenin John o Loegr.
Siwan, mae dy dad yn creu gelynion yn ei lys ei hun.
Mae'r barwniaid wedi cael digon o dalu trethi er mwyn iddo allu ymladd ei ryfeloedd yn erbyn Ffrainc. Er y gallai hyn fod o fantais i ni.
Llywelyn, rwyt ti'r un mor euog o geisio pŵer â fy nhad.
Iawn, iawn, ond os yw'r barwniaid yn brysur yn ymladd ei gilydd, gwnân nhw ddim sylwi os cymera i ychydig mwy o dir Cymru yn ôl!
Wel, fydda i'n methu tawelu fy nhad - ie, hyd yn oed fi - pan fydd e'n clywed am hyn!
Mae'n swnio fel bod Llywelyn wedi mynd yn rhy bell o bosib... Rwy'n dychmygu nad oedd y Brenin John yn rhywun i'w groesi...
Oedd yna frwydr?
Oedd, roedd Llewelyn wedi digio'r Brenin John. Yn 1211, anfonodd y Brenin John fyddin i ogledd Cymru a doedd Llywelyn ddim yn ddigon pwerus i ennill.
Collodd Llywelyn Gastell Deganwy. Byddai e wedi colli ei dir i gyd oni bai fod Siwan wedi darbwyllo ei thad i adael i Llywelyn gadw tiroedd i'r gorllewin o afon Conwy!



Mae'n swnio fel na fyddech am chwarae o gwmpas gyda'r Brenin John – roedd e'n bwerus iawn!
Gall dynion pwerus fethu hyd yn oed, os nad oes cefnogaeth ganddynt. Roedd y barwniaid yn dal yn ddig gyda'r brenin, ac, yn 1215, gwnaethant ei orfodi i lofnodi'r Magna Carta.
Roedd y Magna Carta yn pennu deddfau yr oedd yn rhaid i'r brenin ufuddhau iddyn nhw – er enghraifft, does neb uwchlaw'r gyfraith, gan gynnwys y brenin hyd yn oed!
Cytunodd Llywelyn â'r barwniaid. Roedd e eisiau bod pŵer y Brenin John yn cael ei ffrwyno!
Roedd Llywelyn Fawr yn byw yn ystod cyfnod hynod gyffrous!
Mae'n wir, ac yn araf bach cynyddodd ei bŵer a'i ddylanwad eto...
Roedd uchelwyr eraill Cymru'n parchu Llywelyn. Roedd tywysogion fel Rhys Gryg, a oedd yn teyrnasu dros ran o deyrnas Deheubarth, yn hapus i ymuno â lluoedd Llywelyn.
Roeddent eisiau cymryd rheolaeth dros dde Cymru yn ôl oddi wrth Arglwyddi'r Mers.


# Crewyr Cadw: Comics











Bu byddin fy nhaid, Llywelyn Fawr, yn llwyddiannus iawn. Nid yn unig y gwnaeth e gipio tiroedd Wiliam Marshal, ond fe aeth ymlaen i gipio llawer o gestyll eraill, fel Castell Caerfyrddin a Chastell Llansteffan. Gwnaeth rhai o Arglwyddi'r Mers ochri â Llywelyn hyd yn oed, a chawsant eu gwobrwyo trwy briodi un o'i ferched, a chael cadw eu tir.


Wel, rwy'n deall pam ei fod yn ddyn gwirioneddol fawr, ond rwy'n gwybod mai'r Brenin Edward, brenin Lloegr, sy'n teyrnasu dros Gymru eto, felly beth aeth o'i le?
Wel, bu farw Llywelyn Fawr yn 1237. Bu farw'r Brenin John hefyd, a'i fab Harri oedd y brenin newydd.
Felly pwy oedd yn rheoli Cymru?
Dyna oedd y broblem...
Mab hynaf Llywelyn oedd Gruffudd ap Llywelyn, ond roedd e'n blentyn gordderch gan nad oedd Llywelyn wedi priodi ei fam.
CLEP
Dafydd, fi ddylai etifeddu'r teitl Tywysog Cymru a'r tir. Fi yw plentyn hynaf ein tad!
Mae'n ddrwg gen i, annwyl Gruffudd, ond mae'r gyfraith yn dweud y dylai ein tad fod yn briod â dy fam, ond doedd e ddim!
Fi yw'r mab hynaf a anwyd ar ôl i'n tad briodi fy mam, Siwan! Rwy'n meddwl y byddi di'n gweld mai fi fydd y tywysog!
Gyda hynny, aeth Dafydd ap Llywelyn, mab cyntaf Siwan a Llywelyn, i weld ei ewythr, Brenin Harri III o Loegr.


Nai anwylaf, a oeddet ti wir yn credu y byddwn yn gadael i ti gadw'r un faint o dir ag oedd gan dy dad?
Frenin Harri, wrth gwrs yr oeddwn, fi yw etifedd Llywelyn Fawr...
Dafydd, gwnaf i ganiatáu i ti gadw rhywfaint o dy diroedd, ond rwyf eisiau dy frawd fel gwystl!
Fyddwn i ddim am i chi ddod yn gyfeillion eto a chodi yn fy erbyn!!
Danfonwyd Gruffudd ap Llywelyn i Dŵr Llundain yn 1238.
Roedd fy nhad Gruffudd ap Llywelyn yn ddyn dewr ac roedd yn dyheu am fynd adref. Yn anffodus, bu farw wrth geisio dianc o Dŵr Llundain yn 1244.
Mae'n drueni mawr gen i na chwrddais i â'm taid... oherwydd bod ei frawd ei hun wedi'i fradychu!
Alla i ddim credu chwaith y collwyd holl enillion Llywelyn Fawr mor gyflym!
Ni wnaethon ni mo'u colli heb ymladd, Tomos. Y tro nesaf, mi ddywedaf wrthyt ti am fy mrodyr a'u brwydr i adennill tir Cymru!

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**